HM Government
Llywodraeth EM

# Proffiliau Llwyddiant

## Trosolwg Ymgeisydd

### Beth yw Proffiliau Llwyddiant?

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn recriwtio drwy ddefnyddio Proffiliau Llwyddiant. Mae hyn yn golygu am bob rôl rydym yn ei hysbysebu, rydym yn ystyried beth fyddwch angen dangos er mwyn bod yn llwyddianus. Mae hyn yn rhoi'r cyfle gorau posibl i ni ddod o hyd i'r person cywir ar gyfer y swydd, yn gyrru perfformiad ac yn gwella amrywiaeth a chynhwysiant.


Mae ein Proffil Llwyddiant yn cynnwys pum elfen.

**Gallu**

y gallu neu'r potensial i berfformio i'r safon ofynnol.

**Profiad**

y wybodaeth neu feistrolaeth o weithgaredd neu bwnc a enillwyd trwy gymryd rhan ynddo neu amlygiad iddo.




**Technegol**

yr arddangosiad o sgiliau proffesiynol penodol, gwybodaeth neu gymwysterau.

**Cryfderau**

y pethau rydym yn eu gwneud yn rheolaidd, yn eu gwneud yn dda ac sy'n ein hysgogi.

**Ymddygiadau**

y gweithredoedd a'r gweithgareddau y mae pobl yn eu gwneud sy'n arwain at berfformiad effeithiol mewn swydd.

Nid yw pob elfen yn berthnasol i bob rôl, a bydd yn amrywio yn dibynnu ar y proffesiwn, lefel a'r math o rôl. Dylech sicrhau eich bod yn darllen y disgrifiad swydd yn ofalus i weld pa elfennau sydd angen am y swydd benodol rydych yn gwneud cais amdani. Mae canllawiau ar wahân i bob un o'r elfennau, a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i chi ynglŷn â beth a sut y gallwch ddangos gofynion penodol.

# Proffiliau Llwyddiant

## Trosolwg Ymgeisydd

### Sut mae'r elfennau'n cael eu hasesu

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn asesu ymgeiswyr mewn nifer o wahanol ffyrdd, yn dibynnu ar y math o rôl a lefel rydych yn gwneud cais amdani. Mae defnyddio ystod o ddulliau asesiad yn ein helpu i gydweddu â phobl yn fwy cywir i ofynion hanfodol y swydd. Er enghraifft, efallai y gofynnir i chi gwblhau ffurflen gais neu ddarparu CV a datganiad ategol, a allai ein helpu i asesu eich profiadau, cymwysterau technegol ac ymddygiadau neu efallai y gofynnir i chi fynd i ganolfan asesu neu gwblhau prawf ar-lein i asesu eich galluoedd. Yn aml bydd cyfuniad o'r ymagweddau hyn yn cael eu defnyddio ac efallai bydd mwy nag un elfen yn cael ei brofi o fewn yr un dull asesu.

Mae manylion o ba elfennau a fydd yn cael eu hasesu a sut byddwn yn eich asesu'n erbyn y rhain, yn cael eu cynnwys yn y swydd ddisgrifiad.

### Addasiadau Rhesymol

Mae'r Gwasanaeth Sifil yn weithle amrywiol a chynhwysol ac rydym am eich helpu i ddangos eich potensial llawn pa bynnag fath o asesiad sy'n cael ei ddefnyddio. Os ydych angen unrhyw addasiadau rhesymol i'n proses recriwtio, rhowch wybod i'r rheolwr recriwtio. Mae enghreifftiau o addasiadau yn cynnwys darparu dogfennau mewn print bras neu braille, caniatáu mwy o amser ar gyfer prawf neu gyfweliad neu ddarparu cymorth o fewn canolfan asesu.

## Rhai enghreifftiau o ddulliau asesu'r Gwasanaeth Sifil:

### Ffurflen gais

Fel rheol, gofynnir i chi i gwblhau ffurflen gais fel rhan o'r proses asesiad. Yn ogystal â'ch gwybodaeth bersonol, efallai y gofynnir i chi ddarparu enghreifftiau o achlysuron ble rydych wedi dangos ymddygiadau penodol. Mae'r Gwasanaeth Sifil wedi diffinio set o ymddygiadau sydd, pan maent wedi eu dangos, yn gysylltiedig â llwyddiant swydd.

Mae Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil wedi'u teilwra i lefel gradd rôl y swydd ond ni ofynnir i chi ddangos yr holl Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil ar gyfer un rôl. Defnyddiwch yr enghreifftiau a roddir yn Ymddygiadau'r Gwasanaeth Sifil i ystyried achlysurau ble rydych wedi dangos yn flaenorol yr ymddygiad a ddisgrifir. Efallai y bydd hyn yn y gwaith neu rhywle arall fel profiad gwaith, gwirfoddoli neu mewn cysylltiad â hobi. Peidiwch â chymryd yn ganiataol y bydd y rheolwr recriwtio'n gwybod neu ddeall y sefyllfa roeddech yn wynebu, rydych angen sicrhau ei fod yn glir o ran sut mae'r enghraifft yn bodloni'r ymddygiad sy'n cael ei asesu.

# Proffiliau Llwyddiant

## Trosolwg Ymgeisydd

### CV a/neu ddatganiad ategol

Efallai y gofynnir i chi gyflwyno CV (ac ambell waith datganiad ategol) yn ogystal â, neu yn ei lle, ffurflen gais. Eich CV yw un o'r cyfleoedd cyntaf sydd gennych i ddangos eich sgiliau, profiad a chyflawniadau a gellir eu defnyddio i roi ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer camau recriwtio pellach.

Efallai y byddwn yn gofyn i chi ddarparu eich CV mewn fformat dienw, sy'n gadael allan gwybodaeth benodol a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod chi fel eich enw, oedran neu ryw. Efallai y gofynnir i chi hefyd i ddim ond cynnwys cymwysterau addysgiadol sy'n berthnasol i'r rôl rydych yn gwneud cais amdani, e.e. cymwysterau proffesiynnol. Mae hyn i sicrhau bod y proses yn deg ac nad yw gwybodaeth amherthnasol yn cael ei hystyried yn ystod y broses ddethol.

Os gofynnir i chi ddarparu datganiad ategol, dylech ddefnyddio hyn fel cyfle i amlygu ymhellach sut rydych yn cwrdd â'r'r meini prawf a osodir yn y disgrifiad swydd. Efallai y byddwch yn dymuno cynnwys esiamplau o sut rydych wedi mynd ati i gwblhau'r tasgau tebyg neu ddangos y sgiliau a amlinellir yn yr hysbyseb swydd.

### Profion ar-lein

Efallai y gofynnir i chi gwblhau un neu fwy o brofion ar-lein fel rhan o'r broses recriwtio. Fel arfer bydd dolen i wefan yn cael ei anfon atoch ble mae'r profion i fod i gael eu cwblhau. Mae'r profion hyn yn ein helpu i nodi os oes gennych y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y rôl ac yn asesu eich addasrwydd ar gyfer y math o waith y mae'r Gwasanaeth Sifil yn ei wneud. Mae'r nifer a math o brofion y gofynnir i chi gwblhau yn dibynnu ar y math o rôl rydych yn gwneud cais amdani.

Fel arfer gallwch gymryd y profion ar unrhyw amser o fewn nifer penodol o ddiwrnodau, a fydd yn cael eu hamlinellu yn yr e-bost a anfonwyd atoch. Bydd hefyd nifer o gwestiynau ymarfer y gallwch eu gwneud cyn cymryd y prawf. Efallai bydd y profion yn cael eu hamseru, ac felly dylech sicrhau y gallwch roi eich sylw llawn iddynt cyn dechrau'r asesiad.

# Proffiliau Llwyddiant

## Trosolwg Ymgeisydd

### Cyfweliad

Bydd rhan o'r broses asesu fel arfer yn golygu cyfweliad. Yn gyffredinol, bydd hyn yn wyneb yn wyneb ond rydym weithiau'n defnyddio cyfweliadau dros y ffôn neu wedi'u recordio.

Mae pwrpas yr holl gyfweliadau'r un fath: asesu eich addasrwydd i'r rôl. Fel arfer, bydd dim ond yn parhau am 30-60 munud ac efallai y gofynnir i chi ddisgrifio achlysuron penodol pan wnaethoch ddangos sgil neu ymddygiad penodol.

Cyn i chi fynd am gyfweliad, edrychwch yn ofalus ar y disgrifiad swydd ac ystyried enghreifftiau y gallwch eu rhoi am adegau pan rydych yn flaenorol wedi dangos yr ymddygiadau a amlinellir yn flenorol. Efallai yr hoffech hefyd ystyried sut y byddech yn mynd i'r afael â sefyllfaoedd tebyg yn y dyfodol.

Efallai y gofynnir cwestiynnau i chi am yr hyn sydd o ddiddordeb i chi a beth rydych yn ei fwynhau ei wneud. Bydd y cwestiynau hyn yn helpu'r panel cyfweld asesu eich cryfderau a'r dull orau o weithio. Bydd y Geiriadur Cryfderau'r Gwasanaeth Sifil yn rhoi syniad i chi o'r cryfderau rydym yn chwilio amdanynt yn y Gwasanaeth Sifil, er ni ddisgwylir i chi fyth arddangos y rhain i gyd ar gyfer un rôl. Cyn y cyfweliad byddai'n ddefnyddiol i adlewyrchu ar beth rydych yn teimlo yw eich cryfderau personol a dull orau o weithio.

### Cyflwyniad

Efallai y gofynnir i chi roi cyflwyniad fel rhan o'r broses asesu. Efallai y byddwch yn cael gwybod beth fydd pwnc y cyflwyniad ymlaen llaw i adael i chi baratoi, neu effallai y bydd yn cael ei roi i chi ar y diwrnod. Gall pwnc y cyflwyniad fod mewn maes rydych yn gyfarwydd neu'n anghyfarwydd ag ef, ac efallai y rhoddir rhywfaint o ddeunyddiau ychwanegol i'ch helpu i baratoi. Bydd y llythyr yn eich gwahodd i'r asesiad yn rhoi manylion o'r fformat y bydd y cyflwyniad yn ei gymryd, yr amser a ganiateir am yr ymarfer a ph'un a disgwylir taflenni neu sleidiau cyflwyniad.

Mae'n debygol hefyd y bydd yr aseswyr yn gofyn cwestiynau pellach i chi am eich cyflwyniad. Gallai'r rhain ffocysu ar y pwnc ond efallai yn cwmpasu'r ffordd rydych wedi paratoi ar gyfer yr asesiad.

### Canolfan Asesu

Bydd canolfan asesu fel arfer yn cynnwys cyfuniad o ddulliau dethol gwahanol, fel cyfweliad, cyflwyniad a phrawf ar-lein. Bydd manylion o ba ddulliau dethol a ddefnyddir a beth i ddisgwyl ar y diwrnod fel arfer yn cael eu rhoi yn y llythyr sy'n eich gwahodd i'r ganolfan asesu.